

Rheoliadau Wrth Gefn 2020-21

Gan ystyried yr effaith barhaus ar draws y Brifysgol ar fyfyrwyr a staff, mae'r Brifysgol yn gweithredu ei rheoliadau wrth gefn i gynorthwyo myfyrwyr i sicrhau y gallant ennill gradd briodol.

Y llynedd wrth weithredu ein dull dim anfantais ystyriwyd data meincnodi o'r cyfnod cyn y pandemig. Ni fyddai'n bosibl defnyddio data o'r fath eleni oherwydd y prinder meincnodau sydd ar gael i lawer o fyfyrwyr. Felly, eleni, rydyn ni wedi diwygio ein dull gweithredu.

Mae ein dull wedi'i lunio i leihau'r effeithiau negyddol arnoch chi a sicrhau y dyfernir eich gradd yn deg i chi gan gynnal ein safonau academiaidd a sicrhau gwerth eich cymwysterau.

Bydd y Brifysgol yn gweithredu dull o'r fath ar draws yr holl fyfyrwyr ar raglenni astudio a addysgir. Dilynir y dull hwn tan ddiwedd dyfarniad myfyrwyr.

Ni fydd rhai Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio yn caniatáu esgusodi methiannau neu gynnal asesiadau ailsefyll. Gwneir Byrddau Arholi'n ymwybodol o hyn i sicrhau cydymffurfio â fframweithiau rheoleiddio a sicrhau y byddwch yn dal i ennill eich achrediad.

Mae myfyrwyr yn gymwys o hyd i wneud cais am Amgylchiadau Esgusodol a fydd, pan gânt eu cadarnhau, yn rhoi'r hawl iddynt ailsefyll asesiadau heb iddynt gael eu capio neu godi'r cap ar asesiadau a gyflwynwyd yn hwyr.

Rheoliadau Diwygiedig

Graddau Ymchwil a Myfyrwyr Rhan 2 Graddau Meistr

Gall myfyrwyr wneud cais i Addasu'r Terfyn Amser trwy'r gweithdrefnau arferol. Bydd y Brifysgol yn cymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau cyfredol wrth ystyried yr effaith bosibl ar eu hastudiaethau.

Dyfarniadau a Addysgir (ac eithrio Graddau Ymchwil gydag elfennau a addysgir)

Rheoliadau Dyfarnu a Dilyniant

Ar raglenni lle mae'r Brifysgol yn caniatáu esgusodi methiannau, bydd yn caniatáu esgusodi hyd at 40 credyd ym mhob 120 credyd (gall rhaglenni sy'n cynnwys 60 credyd esgusodi 20 credyd yn unig).

Fel arfer defnyddir yr 80 credyd gorau i gyfrifo dyfarniadau yn hytrach na'r 100 credyd gorau. Fel arall ni fydd y meini prawf ar gyfer pob dosbarth yn newid.

Dilyniant Amodol

Gall myfyrwyr sicrhau dilyniant amodol i'r lefel astudio nesaf gydag 20 credyd heb eu cwblhau, ond mae gan fyrrdau arholi ddisgresiwn ychwanegol i ganiatáu dilyniant amodol gyda nifer fwy o gredydau lle mae amgylchiadau esgusodol wedi cael eu cadarnhau.

Esgusodi methiannau

Bydd modylau a fethwyd gwerth cyfanswm o hyd at ac yn cynnwys 40 credyd yn cael eu hesgusodi ar bob lefel astudio yn amodol ar fodloni'r amodau canlynol.

Caniateir esgusodi methiannau at ddibenion dilyniant neu ddyfarnu yn unig.

Gellir esgusodi modylau a fethwyd dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:

- nid ydynt yn fodylau craidd/modylau 'pasio pob elfen' ar gyfer rhaglen astudio'r myfyriwr;
- mae'r myfyriwr wedi cael marc o 30% o leiaf am y modwl (israddedig) / 45% (ôl-raddedig); mae'r marc terfynol ar gyfer Rhan I yn 50% o leiaf (ôl-raddedig yn unig).

Dyfernir y credydau i fyfyriwr am fodylau a esgusodir.

Rheoliadau yn ôl y Math o Ddyfarniad

- **Rheoliadau Dyfarniadau Meistr**
 - **Dilyniant i Ran 2:**
 - Bydd myfyrwyr yn gallu sicrhau dilyniant gyda hyd at 40 credyd wedi'u hesgusodi.
 - **Myfyrwyr sy'n gymwys am ddyfarniad:**
 - Rhan 1: Cyfartaledd yr 80 credyd gorau;
 - Dyfarniad: Cyfartaledd Rhan 1 a Rhan 2.
- **Rheoliadau Dyfarniadau Baglor**
 - **Dilyniant:**
 - Bydd myfyrwyr yn gallu sicrhau dilyniant gyda hyd at 40 credyd wedi'u hesgusodi.
 - **Myfyrwyr sy'n gymwys am ddyfarniad:** Bydd eu dosbarth yn seiliedig naill ai ar:
 - Gyfartaledd eu 80 credyd gorau ar lefel 6; neu
 - Gyfartaledd eu 80 credyd gorau ar lefel 6 gyda phwysiad o 2, a'u 80 credyd gorau ar lefel 5 gyda phwysiad o 1.
- **Rheoliadau Dyfarniadau Myfyrwyr Meistr Integredig**
 - **Dilyniant:**
 - Bydd myfyrwyr yn gallu sicrhau dilyniant gyda hyd at 40 credyd wedi'u hesgusodi.
 - **Myfyrwyr sy'n gymwys am ddyfarniad:** Bydd eu dosbarth yn seiliedig naill ai ar:
 - Gyfartaledd eu 80 credyd gorau ar lefel 7; neu
 - Gyfartaledd eu 80 credyd gorau ar lefel 7 gyda phwysiad o 3, eu 80 credyd gorau ar lefel 6 gyda phwysiad o 2, a'u 80 credyd gorau ar lefel 5 gyda phwysiad o 1.
- **Tystysgrif Addysg Uwch; Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch; Diploma Addysg Uwch; Gradd Sylfaen; Diplomâu Cenedlaethol Uwch; myfyrwyr cyrsiau atodol; Diplomâu Graddedig; Diplomâu Ôl-raddedig; Diploma Cyn-Feistr**
 - **Dyfarniad:** Cyfartaledd yr 80 credyd gorau ar y lefel astudio uchaf.
- **Tystysgrif Ôl-raddedig; Tystysgrif Cyn-Feistr**
 - **Dyfarniad:** Cyfartaledd y 40 credyd gorau.